# Cynigion a Gwelliannau i'w trafod ar 14 Mehefin 2006

# Cynigion a Gyflwynwyd ar 7 Mehefin 2006

**Dadl Fer**

**NDM3091 Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ailgylchu: Cynnydd – ond mae cryn ffordd i fynd eto.

**NDM3092 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi datblygiad Fframwaith Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Datblygu Economaidd, "Cymru: Economi yn Ffynnu", y mae copïau ohono wedi cael eu hanfon at Aelodau yn y gorffennol ac sydd ar gael ar y rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/wave/wave-e.htm

http://www.cymru.gov.uk/subitradeindustry/content/wave/wave-w.htm

**NDM3093 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan adrannau 76B (3) (a) a 76E (3) (a) a (b) Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, fel y'u mewnosodwyd yn y Ddeddf honno gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Gellir canfod copi o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig: http://www.pfc.org.uk/legal/sda.htm

Gellir canfod copi o'r Ddeddf Cydraddoldeb ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060003_en.pdf

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 08 Mehefin 2006

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM3092**

**1. John Marek (Wrecsam)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd posibl rheilffordd Glyn Ebwy ar gyfer adfywio rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. **TYNNWYD YN OL.**

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu cyflawni ei thargedau economaidd allweddol ers iddi ddod i rym, a'i bod wedi methu â sicrhau digon o arian cyfatebol o Drysorlys y DU ar gyfer ei rhaglen Amcan 1 ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i:

a) ddefnyddio cyllid cydgyfeirio'n well ar gyfer y rownd nesaf drwy sicrhau bod Trysorlys y DU yn darparu arian cyfatebol; ac
b) yn pwysleisio pwysigrwydd busnesau brodorol i wella'r economi.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yng ngoleuni'r cynnydd mewn costau ynni a'r rhagolygon ar gyfer newid yn yr hinsawdd, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod datblygu cynaliadwy ac ystyriaethau amgylcheddol yn ganolog i'w holl bolisïau economaidd.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 09 Mehefin 2006

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM3092**

**1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y gostyngiad yn y cynnyrch gweithgynhyrchu yng Nghymru tra bo’r sector yng ngweddill y DU yn tyfu, ac yn mynegi pryder am ostyngiadau yn y mynegai cynhyrchu, adeiladu, gweithgynhyrchu a hefyd y cynnydd mewn diweithdra dros y 12 mis diwethaf, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod ei methiannau ac adolygu ei strategaethau yn unol â hynny.

**2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai Cymru erbyn hyn yw rhanbarth tlotaf y DU o’i mesur ar sail dangosydd economaidd GVA a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**3. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r ehangu yn nhwf gwerth allforion rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

**4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y byddai cofrestru statudol yn y sector twristiaeth yn cael effaith negyddol ar economi ardaloedd twristiaeth ac felly'n gwrthwynebu unrhyw gynllun ar gyfer cofrestru statudol yn y sector twristiaeth.

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i dargedu cefnogaeth at fusnesau newydd mewn sectorau twf.

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau seilwaith, yn enwedig prosiectau trafnidiaeth yn rownd nesaf o arian strwythurol Ewropeaidd.

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud mwy i helpu gydag adfywio economaidd canol trefi ac i sicrhau bod canol trefi’n parhau’n economaidd hyfyw.

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd, a gwneud rhagor i gynorthwyo a hyrwyddo busnesau a diwydiannau gwyrdd.